At: Bob Corff Dyfarnu sy'n Cynnig Cymwysterau Galwedigaethol neu Gymwysterau Eraill

05 Mehefin 2018

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Diweddariad ar gasglu data ar gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill

Mae'r llythyr hwn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein paratoadau ar gyfer casglu data ar Gymwysterau Galwedigaethol a Chymwysterau Eraill yng Nghymru. Nid oes angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd.

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol fod y gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gasglu data Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru o Ofqual i Cymwysterau Cymru. Rydym wedi bod yn ystyried ein dull gweithredu ac wedi penderfynu ar y camau canlynol mewn perthynas â chasglu data Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru yn y dyfodol:

- Byddwn yn casglu data yn yr un modd ag Ofqual. Felly, bydd angen data arnom ar gyfer nifer y tystysgrifau llawn a roddwyd ar gyfer yr holl Gymwysterau Galwedigaethol a reoleiddir yng Nghymru. O fewn y casgliadau hyn, bydd rhifau'r tystysgrifau yn orfodol. Byddwn yn gofyn am nifer y cofrestriadau ar gyfer pob cymhwyster hefyd, fodd bynnag, gofynnir am y data hwn ar sail wirfoddol yn unol â gofynion Ofqual.
- Mae gennym restr eisoes yn QiW o gymwysterau 'dynodedig' a 'chymeradwy' a gynigir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru ac sy'n sicr gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir gan arian cyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed. Nid yw cymwysterau y cyfeirir atynt fel 'cymwysterau eraill a reoleiddir' yn gymwys am arian cyhoeddus yng Nghymru ac ni chânt eu rhestru yn QiW.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Er mwyn ein galluogi i gasglu data amdanynt byddwn yn llunio ac yn cynnal rhestr o 'gymwysterau eraill a reoleiddir'. Caiff rhestr ddrafft ei hanfon at gyrff dyfarnu fel rhan o'n proses wirio gychwynnol. Ni chaiff y rhestr o 'gymwysterau eraill a reoleiddir' ei harddangos yn gyhoeddus ar QiW.

Mae'r atodiad yn diffinio 'cymwysterau eraill a reoleiddir' a thermau eraill sy'n gysylltiedig â chasglu data yng Nghymru.

Rydym wedi ymgysylltu â chyrff dyfarnu yn y gorffennol i'n helpu i gynllunio ac ystyried ein gofynion a'n nod yw gweithio gyda grŵp o gynrychiolwyr o gyrff dyfarnu i ddatblygu templedi a phrosesau ar gyfer casglu data. Byddwn yn cysylltu â chi â rhagor o fanylion ynglŷn â chreu'r grŵp hwn o gynrychiolwyr.

Ein nod yw casglu data ar yr un pryd ag Ofqual ym mis Ionawr 2019, a fydd yn ein galluogi i brofi ein systemau a'n prosesau. Ar yr achlysur hwn, bydd gofyn i gyrff dyfarnu gyflwyno data i ni ac i Ofqual. Rydym yn disgwyl dechrau casglu data Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru yn llawn ym mis Ebrill 2019.

Yn y cyfamser, dylech barhau i gyflwyno data ar gofrestriadau a thystysgrifau dysgwyr yng Nghymru i Ofqual, sy'n casglu data ar ein rhan.

Byddwn yn cysylltu â chi ym mis Mehefin er mwyn cadarnhau'r manylion am y cymwysterau 'eraill a reoleiddir' a gaiff eu cynnwys yn ein rhestr casglu data ac i roi diweddariad manylach i chi ar ein hamserlen arfaethedig ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb o gasglu data Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru.

Yn gywir



Tom Anderson

Pennaeth Ymchwil

Atodiad – Diffiniadau o dermau sy'n gysylltiedig â chasglu data yng Nghymru

Cymwysterau Galwedigaethol a Chymwysterau Eraill	yw cymwysterau nad ydynt yn TGAU, UG, Safon Uwch, Dyfarniadau Estynedig Uwch, cymwysterau Prif Ddysgu na chymwysterau Prosiect.
Cymwysterau Cymeradwy	yw cymwysterau sydd wedi bodloni ein meini prawf cymeradwyo cymhwyster-benodol.
Cymwysterau Dynodedig	yw cymwysterau y cytunwyd eu bod yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru.

Rhestrir cymwysterau 'cymeradwy' a 'dynodedig' ar ein cronfa ddata QiW gyhoeddus.

Cymwysterau eraill a reoleiddir	yw'r holl gymwysterau eraill a gynigir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig i ddysgwyr yng Nghymru nad ydynt wedi'u heithrio o'n cwmpas cydnabyddiaeth.

At ddiben casglu data, rydym yn diffinio d**ysgwyr yng Nghymru** fel dysgwyr a gofrestrir gan ganolfannau yng Nghymru e.e. canolfan sydd â chod post a ddiffinir fel cod post yng Nghymru gan yr Arolwg Ordnans.